**Camau gweithredu a phwyntiau gwybodaeth sy'n codi o Grŵp Ecosystem Ffermdiroedd Caeedig Bioamrywiaeth Cymru**

**4ydd Tachwedd 2014, cyswllt fideo ystafell gynadledda'r llawr 1af, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, 10:45-3.30pm**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd: | Clare Burrows (CB) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yn bresennol: | Cath Shellswell (CS) | Plantlife |
| | Colin Cheesman (CC) | Plantlife |
| | Jonathan Cryer (JC) | RSPB |
| | Julian Woodman (JW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Sarah Hetherington (SH) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Sarah Slater (SS) | Cyngor Sir y Fflint |
| Cofnodion: | Jane Stevens (JS) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ymddiheuriadau: | Afon Williams | RSPB |
| | Carwyn ap Myrddin | Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Ian Harris | Prifysgol Bangor |
| | Helen Buckingham | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| | Liz Lewis-Reddy | Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn |

2. Camau gweithredu a materion sy'n codi o'r cyfarfod diwethaf

**CG1: paratoi cynnig ffurfiol ar gyfer datblygu gwrychoedd fel thema ar gyfer stondinau CNC mewn sioeau yn 2015 (CB, SH).**

3. Y Diweddaraf am PBC

4. Adolygu'r bwlch mewn ymchwil

PG1: ceir fforwm ar Linkedin ar gyfer y Prosiect Bylchau mewn Tystiolaeth a sefydlwyd i hyrwyddo trafodaethau ar-lein ynghylch dulliau posibl o lenwi'r bylchau mewn tystiolaeth a chasglu gwybodaeth/arbenigedd sydd ar gael eisoes. https://www.linkedin.com/groups/Wales-Biodiversity-Partnership-Evidence-Gaps-8130371

**CG2: Dosbarthu casgliadau'r Arolwg Perllannau ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru (SS).**

**CG3: Llunio cynigion ar gyfer prosiect ymchwil yn ymwneud â gwrychoedd (EF7) ac un yn ymwneud â pherllannau (EF9) (CB).**

5. Glastir a'r Taliad Gwyrdd – y diweddaraf

**CG4: Dosbarthu tabl yn esbonio beth yw Ardaloedd â Ffocws Ecolegol yng Nghymru (SH).**

**CG5: Dosbarthu diffiniad o'r hyn a gaiff ei ystyried fel gwrych mewn Ardaloedd â Ffocws Ecolegol (CB).**

6. Y Diweddaraf am Gynefinoedd – Gwrychoedd

**CG6: Dosbarthu'r adroddiad *Hedgelink* (CB).**

**CG7: Dosbarthu manylion y gweithdy 'cysylltu gwrychoedd' sydd ar ddod, pan fyddant ar gael (CB).**

PG2: Mae Jon Stokes o'r *Tree Council* wedi cynnig siarad am oblygiadau'r clefyd coed ynn o safbwynt gwrychoedd pe bai fforwm/gweithdy yn cael ei drefnu ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru. Ar hyn o bryd, dim ond 10% o goed ynn Norfolk a Suffolk sy'n iach, gyda 10% wedi marw ac 80% wedi'u heintio. Mae Jon yn llunio adroddiad ar y sefyllfa yn Lloegr, a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod Ionawr neu Chwefror 2015.

**CG8: Anfon at SH yr e-bost ar gyfer swyddog iechyd coed CNC ynghylch camau gweithredu'r clefyd coed ynn (CB).**

**CG9: Dosbarthu cyflwyniad Jon Stoke ar y clefyd coed ynn os oes modd cael gafael arno (CB).**

<u>Y Diweddaraf am Gynefinoedd – Ffriddoedd</u>

PG3: Mae Plantlife wedi cynhyrchu taflen newydd o'r enw 'Waxcaps and grassland fungi – a guide to identification and management'. Daeth CC â chopïau i'r cyfarfod.

PG4: Mae llyfryn newydd o'r enw 'Ffridd – a habitat on the edge' wedi'i gyhoeddi gan yr RSPB a CNC. Gellir cael copïau caled ac electronig gan CB.

<u>7. Cyflwyniad ar brosiect âr y Gronfa Ecosystemau Gwydn</u>

**CG10: Dosbarthu'r rhestr o Blanhigion Âr â Blaenoriaeth a adolygwyd yn ddiweddar ac sydd i fod i'w chyhoeddi ar 1 Ionawr 2015 (CS).**

PG5: Mae gan ymylon caeau paneli solar y potensial i fod yn ymylon di-gnwd heb eu trin, a byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn un o'r amodau cynllunio, a phe baent yn cael sgôr Taliad Gwyrdd yng Nghymru.

**CG11: Rhoi'r mapiau targed i CB ar gyfer tir âr, fel y gellir pennu'r ardaloedd a allai fod o fudd i blanhigion âr ac adar fel ei gilydd (CS).**

PG6: Bydd mapiau o'r allbynnau ar gyfer prosiect y Gronfa Ecosystemau Gwydn yn cael eu rhoi ar wefan (heb benderfynu ble eto) rywdro cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

**CG12: Dosbarthu'r fethodoleg monitro tir âr a ddatblygwyd ar gyfer safle yn Sir Benfro (CS).**

<u>8. Trafodaeth ynghylch camau gweithredu tir âr</u>

**CG13: Cynnwys rhywbeth am bwysigrwydd planhigion âr i beillwyr yn un o'r camau gweithredu Polisi a Deddfwriaeth (SS).**

**CG14: Cysylltu â Russell De'Ath i weld a yw'r mapiau targed a luniwyd gan y Grwpiau Ecosystemau yn cael eu defnyddio yn nhair ardal dreialu rheoli adnoddau naturiol CNC yn ardaloedd Dyfi, Tawe a'r Rhondda (AD).**

**CG15: Cysylltu gydag arweinwyr amaeth / rheolwyr amgylcheddol CNC i hyrwyddo manteision planhigion âr wrth ymweld â ffermydd. Rhoi copi pdf iddynt o arweiniad newydd Plantlife ar gyfer adnabod planhigion âr dan fygythiad (CB, JW, SH).**

**CG16: Canfod a oes unrhyw gyhoeddusrwydd wedi'i drefnu ar gyfer y llain âr yng ngwarchodfa Ynys Lawd yr RSPB (JC).**

**CG17: Anfon gwybodaeth at Cath Shellswell am y dewisiadau âr yng nghynllun Glastir (SH).**

**CG18: Cadarnhau a yw'r camau gweithredu tir âr ar wefan PBC (CB).**

**CG19: Trefnu lle yn rhifyn Chwefror cylchgronau'r NFU a'r FUW ar gyfer erthygl yn sôn am blanhigion âr (SH).**

**CG20: Ysgrifennu erthygl yn sôn am blanhigion âr ar gyfer rhifyn Chwefror cylchgronau'r NFU a'r FUW (CB).**

<u>9. Unrhyw Fater Arall, dyddiad y cyfarfod nesaf</u>

**CG21: Ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod maes ym mis Ebrill i ystyried perllannau yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yng nghwmni Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (SS).**

PG7: Efallai y byddai'r 'Cool Farm Tool' yn bwnc defnyddiol ar gyfer erthygl yng nghylchgronau'r NFU a'r FUW yn y dyfodol.